


Aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Medi 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer cyflwyniad i'r Senedd o dan adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol	4
Ffeithiau allweddol	6
Negeseuon allweddol	7
Argymhellion	17
Adroddiad manwl	
1 Trefniadau cefnogi ar gyfer cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	19
2 Asesu effeithiau	30
3 Adrodd a monitro effeithiau	41
Atodiadau	
Dull a methodoleg yr archwiliad	47



Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol

Mae gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn parhau i effeithio ar ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd pobl yng Nghymru. Amlygodd fy adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 fod pandemig COVID-19 wedi dangos rhai o'r anghydraddoldebau sydd wedi ymwreiddio yn ein cymunedau. Mae mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, MeToo a mudiadau cymdeithasol eraill wedi dod â materion gwahaniaethu ac anghydraddoldeb i amlygrwydd ym maes polisi a thrafodaeth gyhoeddus.

Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i osgoi gwahaniaethu yn y penderfyniadau y maent yn eu gwneud ac i hybu cyfle cyfartal a chydlyniant.

Wedi'i wneud yn dda, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy na modd o ddangos cydymffurfiaeth. Maent yn cefnogi twf meddylfryd a diwylliant sy'n rhoi materion cydraddoldeb wrth wraidd gwneud penderfyniadau a datblygu polisi.

Mae ein gwaith yn dangos bod enghreifftiau da o agweddau ar y broses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn cyrff cyhoeddus unigol. Drwy'r adroddiad hwn, rwyf eisiau helpu pob corff cyhoeddus i ddysgu gan y rhai sy'n gwneud hyn yn dda ac yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd.

Fodd bynnag, mae'r hyn yr ydym wedi'i weld a'i glywed yn dweud wrthym ni fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn tueddu i ddefnyddio eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amddiffynol. Yn rhy aml, maen nhw'n ymddangos fel ymarfer blwch ticio i ddangos bod y corff wedi meddwl am faterion cydraddoldeb rhag ofn y bydd her i hynny. Er bod her gyfreithiol yn risg bwysig i'w rheoli wrth gwrs, mae'r dull hwn yn golygu nad yw cyrff cyhoeddus yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w llawn botensial, yn enwedig o ran hybu cydraddoldeb a chydlyniant.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hybu cydraddoldeb. Er hynny, rwyf eisiau i'r gwaith hwn fod yn fwy na diddorol. Mae angen iddo gael effaith. Yn benodol, rwy'n disgwyl:

- i Lywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion i weithio gyda phartneriaid i wella a diweddarau'r dull cyffredinol o ymdrin ag Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- i bob corff cyhoeddus ymateb i'r argymhelliad eu bod yn adolygu eu dulliau eu hunain o ymdrin ag Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys meddylfryd a diwylliant, gan ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn; ac
- i'r rhai sy'n ymwneud â chraffu ddefnyddio'r adroddiad hwn i herio dull cyffredinol eu sefydliad o ymdrin ag Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ansawdd Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb unigol a ddefnyddir i lywio eu penderfyniadau.

Mae'n dda gennyf ddweud bod y gwaith hwn eisoes wedi cael effeithiau cadarnhaol. Mae ein cwestiynau gwaith maes wedi ysgogi rhai cyrff cyhoeddus i wirio agweddau ar eu trefniadau eu hunain. Ac rydym wedi rhannu canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda rhai cyrff cyhoeddus a oedd yn diweddarau eu dull o ymdrin ag Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn nes at adref, yn Archwilio Cymru, rydym yn edrych yn fanwl ar ein prosesau a'n gweithdrefnau ein hunain i adlewyrchu'r gwersi a nodwyd yn y gwaith hwn.




Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru

Ffeithiau allweddol

Fe nodir isod rai ffeithiau allweddol am y boblogaeth yng Nghymru yng nghydestun y naw nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



Ffynonellau:

1. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cyfrifiad 2021, Mehefin 2022
2. StatsCymru, Anabledd yn ôl oedran a rhyw (diffiniad Deddf Cydraddoldeb) (2018-2020)
3. StatsCymru, Statws priodasol fesul oedran a rhyw (2018-2020)
4. StatsCymru, Statws crefydd yn ôl oedran (2018-2020)
5. ONS, Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl grŵp ethnig, Cymru a Lloegr Rhagfyr 2021 (data ar gyfer 2019)
6. StatsCymru, Hunaniaeth Rywiol yn ôl blwyddyn, 2019
7. Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, Arolwg Cenedlaethol LHDT, Gorffennaf 2018 (cynhaliwyd yr arolwg am 12 wythnos o fis Gorffennaf 2017)
8. StatsCymru, Dangosyddion asesiad cychwynnol Cymru, yn ôl oedran y fam, 2021

Negeseuon allweddol

Cyd-destun

- 1 Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn nod hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos yn amlwg yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 sy'n cynnwys yr amcan i 'ddathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math'¹. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud 'Cymru sy'n fwy cyfartal' yn nod cenedlaethol. Mae'n diffinio hyn fel 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)'.
- 2 Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael â gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb yng Nghymru. Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) ar draws Prydain Fawr (**Arddangosyn 1**). Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei rheoliadau ei hun² sy'n nodi rhai dyletswyddau penodol i Gymru y mae angen i gyrff a restrir yn y Ddeddf eu dilyn i fodloni'r DCSC. Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf asesu effeithiau tebygol polisïau neu arferion arfaethedig neu newidiadau arfaethedig i bolisïau neu arferion presennol ar eu gallu i fodloni'r DCSC. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion penodol i ymgysylltu â grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio a monitro effeithiau gwirioneddol.

1 Llywodraeth Cymru, Y Rhaglen Lywodraethu: diweddariad, Rhagfyr 2021

2 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Arddangosyn 1: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a nodweddion gwarchoddedig

Mae'r DCSC yn gofyn i gyrrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyladwy i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- cynyddu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Y nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf a'r dyletswyddau penodol i Gymru yn berthnasol i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau, cyrff y GIG, gwasanaethau tân ac achub, parciau cenedlaethol, cyrff addysg (cyrff addysg bellach ac addysg uwch ac ysgolion a gynhelir), a Llywodraeth Cymru a rhai o'i chyrrff a noddir.

- 3 Gall Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddarparu tystiolaeth bod y corff wedi bodloni'r DCSC. Bu heriau cyfreithiol i benderfyniadau ar sail diffyg neu ddigonolrwydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ar ben hynny, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cefnogi polisi a gwneud penderfyniadau da yn fwy cyffredinol drwy:
 - **sicrhau bod penderfyniadau'n effeithio ar grwpiau gwarchoddedig mewn ffordd deg** – gall Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddangos pa gamau, os o gwbl, y gellid eu cymryd i liniaru'r effaith ar un neu ragor o grwpiau gwarchoddedig yr effeithir arnynt yn negyddol gan benderfyniad ac i hybu cydraddoldeb a chydlyniant;
 - **cefnogi polisi neu benderfyniadau ar sail tystiolaeth** – mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ffordd glir a strwythuredig o gasglu, asesu a chyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi penderfyniadau; a
 - **gwneud penderfyniadau'n fwy tryloyw** – rhaid cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fyddant yn dangos bod neu'n debygol o fod effaith sylweddol.

- 4 Yn ogystal â'r DCSC, roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus³. Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, 'wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut byddant yn cyflawni eu swyddogaethau, yn ystyried pa mor briodol yw eu harfer mewn ffordd sydd wedi cael ei dylunio i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.' Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori cyrff cyhoeddus i ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel rhan o'r prosesau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys asesiadau effaith. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu gwaith llywodraeth leol er mwyn mynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys agweddau o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a phrofiad bywyd pobl sy'n profi tlodi.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 5 Gwnaethom edrych yn gyffredinol ar y dull o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn rhoi pwyslais i'n gwaith, gwnaethom ganolbwyntio ar y 44 corff cyhoeddus a oedd yn wreiddiol yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y prif grŵp sy'n cael sylw gan yr DCSC na wnaethom eu cynnwys oedd y cyrff addysg - sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ac ysgolion a gynhelir – a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
- 6 Canolbwyntiwyd yn bennaf ar ddeall dulliau cyrff cyhoeddus gyda'r bwriad o ddod o hyd i arferion da neu ddiddorol a nodi unrhyw feysydd cyffredin i'w gwella. Ni wnaethom werthuso dulliau cyrff cyhoeddus unigol yn fanwl. Mae rhagor o fanylion yn **Atodiad 1** am ein dull archwilio a'n methodoleg. Pan fyddwn yn nodi arferion cyrff unigol, nid yw hyn yn golygu eu bod o reidrwydd ar eu pennau eu hunain o ran bod ag arferion da neu ddiddorol yn y maes hwnnw.
- 7 Mae rhannau un i dri o'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein hystyriaeth o'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y 44 corff cyhoeddus. Isod, rydym yn nodi'r prif feysydd ar gyfer gwella a nodwyd gennym. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnal rhannau penodol o'r prosesau ac yn cynnig cipolwg ar y dull cyffredinol o asesu effeithiau polisïau ac arferion a'r meddylfryd a'r diwylliant sy'n sail iddynt.

3 Gwnaeth y ddyletswydd orwedd yn segur ar y llyfr statud gan na wnaeth Llywodraeth y DU ei chychwyn. Rhoddodd Deddf Cymru 2017 bwerau newydd i Weinidogion Cymru a chaniatáu iddynt gychwyn ar y ddyletswydd yn Cymru. Mae'n cwmpasu y rhan fwyaf o fathau o gyrff cyhoeddus cyrff sy'n ddarostyngedig i'r DCSC.

- 8 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu rheoliadau penodol DCSC Cymru. Rydym wedi fframio ein meysydd gwella allweddol a'n hargymhellion yng nghyd-destun y cyfle y mae'r adolygiad yn ei gynnig i egluro agweddau ar y dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru.

Meysydd gwella allweddol

- 9 Yn gadarnhaol, mae enghreifftiau o arfer da mewn agweddau ar y broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws y cyrff cyhoeddus y gwnaethom edrych arnynt. Yn ogystal â hyn, mae canllawiau anstatudol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol⁴ ac ar Dudalennau Arferion Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru (Tudalennau Arferion) am y prosesau manwl ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio eu dulliau gweithredu. Fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella (**Arddangosyn 2**).

4 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Asesu Effaith a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb: Arweiniad i Awdurdodau Cyhoeddus Rhestredig yng Nghymru, Hydref 2014; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Canllawiau Technegol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus: Cymru, Awst 2014.

Arddangosyn 2: meysydd gwella allweddol ar gyfer Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



Mwy o eglurder ynglŷn â pha fath o bolisiâu ac arferion y mae'n rhaid asesu eu heffaith



Mwy o eglurder am y trefniadau ar gyfer asesu effaith polisiâu ac arferion cydweithredol



Mwy o eglurder ynglŷn â disgwyliadau i ystyried y DCSC fel rhan o aseiad effaith integredig



Nodi yn well ac yn fwy amserol effeithiau ymarferol penderfyniadau ar bobl a sut mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn croestorri



Mwy o ymgysylltu a chynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig



Monitro'n well gwir effeithiau polisiâu ac arferio ar bobl



Newid yn y meddylfryd a'r diwylliannau i symud Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb i ffwrdd o gael ei weld fel ymarfer 'blwch ticio' ychwanegol

Mwy o eglurder ynglŷn â pha fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid asesu eu heffaith

- 10 Mae lle i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, egluro ei disgwyliadau o ran pa fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid asesu eu heffaith. Fel y'u drafftwyd, mae'r dyletswyddau penodol i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu'r holl bolisïau neu arferion newydd, neu'r rhai sy'n cael eu hadolygu. Ond mae canllawiau anstatudol y Comisiwn Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod 'polisïau ac arferion' yn gategori eang ac yn dweud efallai bod angen i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu. Mae'n cyflwyno cysyniadau 'cymesuredd' a 'pherthnasedd', ac mae'n dweud y gall gyrff cyhoeddus eu cymhwyso drwy broses a elwir yn 'sgrinio'.
- 11 Rydym yn credu bod y sefyllfa bresennol yn agored i'w dehongli o ran a yw cymesuredd a pherthnasedd yn golygu y dylai gyrff cyhoeddus: (a) flaenoriaethu penderfyniadau mawr, fel penderfyniadau cyllideb neu newid gwasanaeth mawr; neu (b) blaenoriaethu penderfyniadau sydd yn debygol o gael effaith fawr ar rai grwpiau, er enghraifft, gallai penderfyniadau ar raddfa fach gael effaith fawr ar un rhan o'r boblogaeth. Ar ben hyn, mae llawer o gyrff wedi dehongli cymesuredd fel penderfynu faint o waith sydd angen ei wneud i asesu effeithiau, yn hytrach nag a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisi neu arfer.
- 12 Yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu'r penderfyniadau sgrinio y mae gyrff cyhoeddus yn eu cyhoeddi fel arfer yw'r rhai sy'n mynd i'w byrddau neu eu cabinetau. Maen nhw felly'n tueddu i fod ar ben mwy strategol neu lawn effaith y raddfa. Er na wnaethom archwilio arferion manwl mewn gyrff unigol, rydym yn credu bod risg y gallai gyrff cyhoeddus fod yn hidlo polisïau ac arferion sydd ar raddfa lai yn anffurfiol nad oes angen penderfyniadau gan fwrdd neu gabinet, er y gallant effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Mwy o eglurder am y trefniadau ar gyfer asesu effaith polisiau ac arferion cydweithredol

- 13 Mae lle i egluro sut y dylai cyrff cyhoeddus wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn amgylchedd o gydweithio cynyddol. Mae'r gyfraith yn gosod dyletswyddau ar gyrrff cyhoeddus unigol. Ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, mae cyrff cyhoeddus yn datblygu cynlluniau a darparu gwasanaethau fwyfwy trwy drefniadau cydweithredol. Diweddarodd Llywodraeth Cymru'r ddeddfwriaeth i ymestyn dyletswyddau DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig mewn llywodraeth leol, ond mae trefniadau cydweithredol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ogystal â nifer o gydweithrediadau penodol i wasanaethau.
- 14 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau annibynnol ar ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy drefniadau cydweithredol, er bod canllawiau ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn tynnu sylw at ofynion Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cyrff cyhoeddus unigol⁵. Mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2014 yn rhagddyddio creu llawer o'r trefniadau hyn ac yn cynnig cyngor ar lefel uchel y dylid bod â dull a rennir ond nid yw'n dweud sut y dylai hyn weithio'n ymarferol.

5 Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (RhPRhD 3: Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)), Chwefror 2016.

Mwy o eglurder ynglŷn â'r disgwyliadau i ystyried y DCSC fel rhan o asesiad effaith integredig

- 15 Yn gynyddol, mae cyrff cyhoeddus yn integreiddio eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ag aseidiadau effaith eraill. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i integreiddio aseidiadau, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)⁶ yn pwysleisio'r cyfleoedd i gyrff integreiddio eu hagwedd at wahanol ddyletswyddau, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd llawer o'r swyddogion cydraddoldeb⁷ y buom yn siarad â nhw fod integreiddio aseidiadau effaith wedi arwain at broses symlach a dull mwy llyfn o feddwl am effeithiau. Prif anfantais hyn yw bod yr asesiad yn hirach a gall ymddangos yn frawychus. Nododd ein hadolygiad o Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd risg bod aseidiadau effaith integredig yn gwanhau'r pwyslais ar effeithiau polisïau ac arferion ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 16 Mae cyrff cyhoeddus yn anghyson yn yr hyn y maen nhw'n ei gynnwys mewn asesiad effaith integredig. Yn bennaf, maen nhw'n casglu aseidiadau ar wahân mewn un ddogfen, yn hytrach na chynhyrchu dadansoddiad gwirioneddol integredig o effeithiau. Nid oes canllawiau penodol i gefnogi cyrff cyhoeddus i gynnal aseidiadau effaith integredig. Byddai llawer o swyddogion cydraddoldeb yn croesawu canllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i disgwyliadau.

6 Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (RhPRhD 2: Rôl Unigol (cyrff cyhoeddus)), Chwefror 2016.

7 Rydym wedi defnyddio'r term 'swyddog cydraddoldeb' drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at staff mewn cyrff cyhoeddus sydd â swyddogaethau arbenigol arweiniol penodol ar gyfer cydraddoldeb, boed hynny eu swydd llawn amser neu'n rhan o'u swydd. Mae'r ffordd y mae'r swyddi hyn wedi'u strwythuro, a'u lefel yn y sefydliad, yn amrywio.

Nodi yn well ac yn fwy amserol effeithiau ymarferol penderfyniadau ar bobl a sut mae nodweddion gwarchoddedig gwahanol yn croestorri

- 17 Ceir enghreifftiau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n nodi effeithiau tebygol ar grwpiau o bobl yn glir. Fodd bynnag, roedd llawer o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a adolygwyd gennym yn ddisgrifiadol. Fe wnaethon nhw nodi y gallai polisi neu'r arferion effeithio ar grŵp o bobl. Ond nid oeddynt yn dangos sut y byddai'n effeithio ar fywydau pobl yn ymarferol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau asesu pa mor bwysig yw'r effeithiau tebygol ac os byddai unrhyw fesurau lliniarol a gynigir yn ddigonol.
- 18 Yn gyffredinol, mae cyrff cyhoeddus yn tueddu i nodi effeithiau negyddol y mae angen iddyn nhw eu lliniaru pan fo hynny'n bosibl. Maent yn llai tebygol o nodi ffyrdd posibl y gallai'r polisi neu'r arferion hybu cyfle cyfartal a chydlyniant yn gadarnhaol, er bod hyn yn ofyniad i'r DCSC.
- 19 Prin yw'r cyrff cyhoeddus sydd wedi llwyr afael yn y cymhlethdod o nodi effeithiau tebygol polisiâu ac arferion. Nid oedd yr un o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr edrychom ni arnynt yn ystyried yr hyn a elwir yn 'croestoriadedd'; y ffordd y mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn cyfuno. Er enghraifft, er bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o bosibl yn nodi effeithiau ar bobl Fwslimaidd, efallai na fydd yn cydnabod y gallai effeithiau fod yn wahanol iawn i fenyw Fwslimaidd o'i gymharu â dyn Mwslimaidd.
- 20 Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn meddwl am sut i nodi effeithiau cronus sawl penderfyniad ond ychydig sy'n gwneud hynny. Nid oes gan y rhan fwyaf systemau ategol a fyddai'n galluogi'r rhai sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen am benderfyniadau eraill.
- 21 Mae prosesau a chanllawiau ffurfiol y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn dweud y byddan nhw'n dechrau meddwl am effeithiau yn gynnar iawn yn y broses datblygu polisi. Fodd bynnag, roedd llawer o'r swyddogion cydraddoldeb yn cydnabod bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ymarferol, yn aml yn dechrau'n hwyr yn y broses, weithiau'n fuan iawn cyn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Mae hyn yn lleihau'r cwmpas i lywio'r polisi neu'r arferion ac i liniaru effeithiau.

Mwy o ymgysylltu a chynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig

- 22 Mae enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn ceisio barn gan bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ac yn defnyddio eu profiad bywyd fel rhan o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ond mae rhai gyrff trydydd sector yn poeni nad yw hyn yn digwydd yn ddigonol. Gwelsom, pan fo gyrff cyhoeddus yn gofyn am farn, bod y rhain yn aml yn rhan o ymgynghoriad agored ehangach yn hytrach nag yn canolbwyntio ar grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 23 Dywedodd rhai sefydliadau yn y trydydd sector mai gwranddo ar bobl â nodweddion gwarchoddedig oedd y weithred a fyddai'n gwella Aseiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fwyaf. Ni allai gyrff cyhoeddus cynrychioliadol cenedlaethol bob amser ymateb i nifer y ceisiadau i gymryd rhan yn Aseiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y maent yn eu derbyn ac nid oedd ganddynt y ddealltwriaeth na'r wybodaeth bob amser i ymateb i faterion lleol.

Monitro'n well gwir effeithiau polisiau ac arferion ar bobl

- 24 Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy i fonitro effaith polisiau neu benderfyniadau ar grwpiau gwarchoddedig. Nododd swyddogion cydraddoldeb mewn gyrff cyhoeddus unigol mai ychydig iawn o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus sy'n monitro gwir effeithiau polisi neu benderfyniad ar ôl eu gweithredu. Roedd yr enghreifftiau hynny a gyflwynwyd yn gyffredinol yn adlewyrchu monitro ehangach o amcanion polisi yn hytrach nag a oedd yr effeithiau a nodwyd yn yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu gwireddu neu a oedd effeithiau eraill nas rhagwelwyd.

Newid yn y meddylfryd a'r diwylliannau sy'n symud Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ffwrdd o gael ei weld fel ymarfer 'blwch ticio' ychwanegol

- 25 O'r hyn rydyn ni wedi'i weld does dim newid digonol wedi bod yn y meddylfryd a'r diwylliant mewn gwasanaethau cyhoeddus i roi materion cydraddoldeb wrth wraidd llunio polisiau. Mae'r meddylfryd a ddatgelwyd gan yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml yn amddiffynol: defnyddio Aseiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i brofi bod y corff wedi talu sylw dyladwy i gydraddoldeb rhag ofn y bydd her wleidyddol neu gyfreithiol. Yn aml, mae'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymddangos fel ymarfer 'blwch ticio' ychwanegol i gydymffurfio ag ef yn hytrach nag yn fodd o hyrwyddo cydraddoldeb.

Argymhellion

Argymhellion

Egluro cwrpas y ddyletswydd i asesu effaith polisïau ac arferion

- A1 Mae lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o'u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dehongliad o'r ddyletswydd, gan gynnwys a yw'n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio unrhyw brawf o gymesuredd a pherthnasedd a sut i wneud hynny.**

Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da

- A2 Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy'n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae'r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na'u bod wir wedi'u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o'r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a'r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da.

Argymhellion

Cymhwyso'r dyletswyddau cydraddoldeb i gydweithrediadau cyrff cyhoeddus a phartneriaethau

A3 Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid ers cyflwyno'r DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru, ac mae pwyslais cynyddol ar gynllunio a chyflawni cydweithredol. **Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddarau rheoliadau penodol i Gymru i gwmpasu ystod ehangach o drefniadau cydweithredol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau eraill sy'n benodol i wasanaethau.**

Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A4 Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. **Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law.**



**Trefniadau ategol
ar gyfer cynnal
Asesiadau o'r Effaith
ar Gydraddoldeb**

01

- 1.1 Gall cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fod yn gymhleth. Gall cefnogaeth dda helpu i wneud y broses o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn haws ac yn fwy effeithiol drwy fod â dull a phroses wedi'i hegluro'n glir, a ategir gan ganllawiau a hyfforddiant clir. A gall cyrff cyhoeddus fod â chyngor arbenigol wrth law i gefnogi'r rhai sy'n ymwneud ag asesu effeithiau penderfyniadau.

Nodi dull y sefydliad o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Dull sydd wedi'i egluro'n glir o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y sefydliad, gan gynnwys a ddylai'r Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb fod yn rhan o asesiad effaith integredig ehangach.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Roedd gan bron bob corff cyhoeddus broses benodol ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ond roedd y rhain yn amrywio o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb annibynnol i gynhyrchu asesiadau effaith integredig sy'n cwmpasu ystod eang ac amrywiol o ddyletswyddau cyfreithiol a blaenoriaethau polisi eraill.

Cynlluniau cydraddoldeb strategol

- 1.2 Fe wnaeth pob un o'r 44 corff cyhoeddus fodloni'r gofyniad i lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Rhaid i'r CCS gynnwys amcanion cydraddoldeb sefydliad, sut y bydd yn mesur cynnydd ar gyflawni amcanion, a sut y bydd yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol a phenodol. Rhaid i'r CCS hefyd nodi trefniadau'r cyrff cyhoeddus ar gyfer asesu effaith debygol polisiâu ac arferion ar eu gallu i fodloni'r DCSC. Fodd bynnag, yn ein hadolygiad o CCSau gwelsom mai dim ond 17 o'r 44 corff wnaeth hynny ac i amrywiol raddau o fanylder.
- 1.3 Mae ambell i gorff cyhoeddus wedi mynd ymhellach na disgrifio trefniadau yn unig. Er enghraifft, mae CCS Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn disgrifio'n fanwl ei broses ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, sut mae ei Gabinet yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gefnogi penderfyniadau, a rôl pwyllgorau craffu wrth sicrhau ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae CCS y Cyngor hefyd yn esbonio sut mae wedi defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i lywio ei amcanion cydraddoldeb.

Dull sefydliadol – asesiadau integredig ac annibynnol

- 1.4 Mae gan bron pob corff cyhoeddus (42 o'r 44) broses sefydledig ar gyfer ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn rhoi gwybodaeth ar safleoedd mewnwyd, ochr yn ochr â dogfennau ategol, cysylltiadau a gan amlaf templed Word i'w gwblhau. Ni ddaeth ein hadolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o hyd i unrhyw fformat safonol ar draws cyrff cyhoeddus, er bod y rhan fwyaf yn dilyn y dull a nodir ar y Tudalennau Arferion. Mae aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu templed safonol y mae'r rhan fwyaf o aelodau'r rhwydwaith wedi ei fabwysiadu, o leiaf yn rhannol, ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb⁸.
- 1.5 Mewn tua dwy ran o dair (30 o'r 44) o gyrff cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw, mae'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o aseiad effaith integredig ehangach. Nid oes dull cyffredin o asesu effaith integredig a dim canllawiau cenedlaethol ar yr hyn y dylid ei gynnwys. Ceir rhai asesiadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cynnwys yn gyffredin ochr yn ochr â'r DCSC (**Arddangosyn 3**). Mae rhai'n cynnwys dyletswyddau cyfreithiol eraill yn ogystal â blaenoriaethau polisi ac ystyriaethau ymarferol, megis cyllid. Er enghraifft, mae asesiadau effaith integredig Llywodraeth Cymru weithiau'n ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd, effeithiau iechyd ac effeithiau economaidd yn ogystal ag ystod eang o ddyletswyddau cyfreithiol eraill, yn dibynnu ar natur y polisi neu'r arferion.

8 Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn rhwydwaith anffurfiol o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i ddatblygu cydraddoldeb. Mae'r gynrychiolaeth yn cynnwys awdurdodau lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Arddangosyn 3: aseidiadau sy'n cael eu cynnwys yn gyffredin mewn asesiad effaith integredig ochr yn ochr â'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 saith nod llesiant i Gymru. Sefydlodd hefyd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio – hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal – i ddangos cymhwyso'r egwyddor. Gall asesiad effaith integredig hefyd gynnwys asesiad o'r polisi neu'r arferion o'u cymharu â'r saith nod, amcanion llesiant unigol cyrff cyhoeddus a/neu'r pum ffordd o weithio a bennir yn y Ddeddf.
Y Gymraeg	Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'n gwneud darpariaeth er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy safonau'r Gymraeg. Mae rhan o gymhwyso'r safonau yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
Effeithiau amgylcheddol	Mae dyletswyddau amrywiol i gynnal aseidiadau effaith amgylcheddol yn ddibynnol ar natur y polisi neu'r arferion arfaethedig. Mae'r rhain yn amrywio o aseidiadau strategol o gynlluniau a rhaglenni i aseidiadau o brosiectau a allai effeithio ar gynefinoedd a bioamrywiaeth.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys 41 o erthyglau, sy'n nodi ystod eang o fathau o hawliau gan gynnwys hawliau i fywyd ac anghenion goroesi sylfaenol, hawliau i ddatblygu gan gynnwys addysg a chwarae, hawliau i amddiffyniad, gan gynnwys diogelu rhag cam-drin a cham-fanteisio, a hawliau i gymryd rhan a mynegi barn.
Economaidd-gymdeithasol	Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021. Wrth wneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gallant leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

- 1.6 Mae'r rhan fwyaf o asesiadau effaith integredig yn cynnwys casglu asesiadau effaith ar wahân ar ddogfen dampled. Ychydig sy'n ymddangos fel asesiad effaith wirioneddol integredig. Mae rhai gyrff cyhoeddus yn ceisio gwneud y cysylltiadau rhwng asesiadau a lleihau dyblygu. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Gâr, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datblygu, neu yn datblygu, datrysiad TG i ddwyn ynghyd yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i lywio asesiad effaith integredig.
- 1.7 Ychydig iawn o gyrff cyhoeddus sy'n asesu'r effaith ar y DCSC yn unig hyd yn oed pan nad ydynt yn ystyried bod eu hasesiadau wedi'u hintegreiddio. Yn y gyrff cyhoeddus hynny sy'n dweud bod ganddyn nhw broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb annibynnol, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml hefyd yn cynnwys effeithiau ar y Cymraeg ac effeithiau economaidd-gymdeithasol.

- 1.8 Mae ymchwil flaenorol wedi canfod bod hyd yn rhwstr i ddefnyddio asesiadau effaith wrth wneud penderfyniadau⁹. Roedd yn anodd i ni farnu bod unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu effaith integredig yn rhy hir gan fod llawer o ffactorau'n effeithio ar yr hyd gan gynnwys natur y polisi neu'r penderfyniad a nifer yr asesiadau a gynhaliwyd. Fe wnaethom adolygu rhai dogfennau a oedd yn hir iawn; er enghraifft, roedd asesiad effaith integredig o bolisi gweithio o bell Llywodraeth Cymru yn 45,000 o eiriau (amser darllen cyfartalog 2.5 awr). Roedd y mwyafrif y gellid nodi cyfrif geiriau yn hawdd ar eu cyfer rhwng 2,500 a 7,500 o eiriau (amser darllen cyfartalog 8 i 25 munud).
- 1.9 Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus sydd wedi dewis peidio ag integreiddio eu hasesiadau wedi ystyried yr opsiwn hwnnw. Roedd y rhesymau dros beidio integreiddio asesiadau yn cynnwys pryder na fyddai digon o sylw i'r DCSC. Gall hyn fod yn bryder dilys. Mae ein hadolygiad yn awgrymu, mewn rhai achosion, fod y DCSC wedi'i chynnwys mewn ychydig iawn o fanylder ac yn ymddangos yn eilradd i ystyriaethau eraill er bod yr holl gyrff cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw sy'n cynnal asesiadau effaith integredig yn credu eu bod wedi ymdrin yn ddigonol â'r elfen gydraddoldeb.

Cefnogaeth ac arbenigedd

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Bod cefnogaeth ac arbenigedd ar gael yn y sefydliad i'r rhai sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Yn y rhan fwyaf o achosion, arweinwyr polisi sy'n gyfrifol am gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gallant gael cefnogaeth gan gydweithwyr sydd â gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a dealltwriaeth fanwl o broses y sefydliad ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.



9 Gras, C., Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2016.

- 1.10 Yn bron pob corff cyhoeddus, mae'r cyfrifoldeb dros gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gorwedd gyda'r prif swyddog sy'n datblygu neu'n adolygu polisi neu arferion. Mae hyn yn rhannol ymarferol, oherwydd nifer yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y mae cyrff cyhoeddus yn eu cynnal. Dywedodd swyddogion cydraddoldeb wrthym fod y dull hwn yn golygu bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi elwa o arbenigedd arweinwyr polisi yn y maes pwnc. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi anfanteision, gan gynnwys anhawster sicrhau cysondeb, dechrau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr adeg iawn a sicrhau ansawdd.
- 1.11 Mae gan bob corff cyhoeddus swyddogion cydraddoldeb (neu gyfatebol) â gwybodaeth mewn materion cydraddoldeb cyffredinol a dealltwriaeth fanwl o broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb y sefydliad. Ym mhob corff cyhoeddus, gall staff sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ofyn i swyddogion cydraddoldeb am arweiniad pan fo angen. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal gan amlaf heb gyfraniad swyddog cydraddoldeb. Mae'r broses ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn un eithriad i hyn, lle mai'r cam cyntaf i unrhyw un sy'n credu bod angen iddynt ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cysylltu â'r arbenigwr Amrywiaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod y polisi neu'r arferion arfaethedig a chytuno ar ba gamau sydd angen iddynt eu cymryd, a chymorth parhaus hefyd yn cael ei ddarparu. Mewn cyrff cyhoeddus llai, lle mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy tebygol o ymwneud â pholisïau a phenderfyniadau staff, mae'r arweinydd ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml yn swyddog Adnoddau Dynol sydd hefyd yn swyddog cydraddoldeb.

Canllawiau i gefnogi'r rhai hynny sy'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Bod yna ganllawiau i gefnogi'r rhai hynny sy'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud a phryd, yn unol â'r dyletswyddau a'r dull a ddewiswyd gan eu sefydliad.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

